Cerdyn myfyriwr

Rhodd o feinwe'n rhoi'r cyfle i fabolgampwr chwarae eto

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng byw, a charu bywyd?

Ateb: rhodd o dendon, os ydych yn digwydd bod yn dwli ar chwaraeon.

Roedd Chris yn sbortsmon brwd iawn ond trawodd yn erbyn coeden pan oedd yn eirafyrddio. Cafodd y gewynnau yn ei ben-glin chwith eu rhwygo'n ddifrifol iawn ac roedd angen llawdriniaeth arno i unioni'r niwed. Defnyddiodd ei lawfeddyg dendon a roddwyd i gymryd lle'r gewyn, fel y gallai fynd yn ôl i gymryd rhan mewn chwaraeon cyn gynted â phosibl. O fewn chwe mis, roedd Chris yn chwarae tennis unwaith eto ac roedd yn eirafyrddio y flwyddyn ganlynol.



"Rwy'n gwybod nad oedd y trawsblaniad yn un sy'n arbed bywyd, ond mae chwaraeon yn bwysig iawn i mi. Dyma'r gwahaniaeth rhwng byw, a charu bywyd. Mae fy mhen-glin yn teimlo'n gryfach heddiw na chyn y ddamwain ac rwyf yn lwcus 'mod i wedi cael y cyfle i gael y llawdriniaeth hon."

Gallwch ddarllen mwy o storïau gwir ar:
www.giveandletlive.co.uk

NHS
Gwaed a Thrawsblaniadau



Ffeil ffeithiau

1. Llinynnau ffibrog yw tendonau sy'n cysylltu cyhyrau ag esgyrn.

2. Mae dros miliwn o bobl yn y DU yn dioddef problemau tendon, sy'n achos poen difrifol, cyffni a gwendid.

3. Mae symptomau rhai pobl yn datblygu'n raddol, wrth i gyflwr y tendon ddirywio'n araf. Mae pobl eraill yn eu cael eu hunain mewn poen ofnadwy yn ddisymwth wrth i dendon rwygo.

Trafodaethau byw

Dewiswch un neu fwy o'r datganiadau canlynol i'w trafod fel grŵp. Ysgrifennwch y ddadl dros ac yn erbyn y datganiadau a phenderfynwch ar ba ochr yr ydych chi. A yw pob aelod o'ch grŵp yn cytuno?

- "Rwy'n meddwl ei bod yn annheg caniatáu trawsblaniadau ar gyfer problemau nad ydynt yn bygwth bywyd megis gewynnau wedi rhwygo."
- "Nid yw hyn a wnelo â phara'n fyw yn unig; mae'n ymwneud hefyd â medru mwynhau bywyd a gwneud y pethau yr ydych am eu gwneud. Mae gan bawb yr hawl i dderbyn trawsblaniad os yw'n gwella ansawdd eu bywydau."
- "Rwyf yn rhy ifanc i feddwl am farwolaeth a rhoi organau neu feinwe. Y cyfan rydw i am ei wneud yw mynd ymlaen â'm bywyd fy hunan."

Rhoi eich hun yn eu hesgidiau nhw

- Dychmygwch fod Chris wedi mynd yn ei flaen i fod yn bencampwr eirafyrddio'r byd. Beth fyddai'n debygol o ddweud ynghylch ei drawsblaniad tendon mewn cyfweliad papur newydd?
- Er bod y mwyafrif llethol o bobl yn cefnogi rhoi organau a meinwe, dim ond dau allan o bob deg sy'n rhoi eu henwau ar y rhestr. Dychmygwch eich bod yn cefnogi'r syniad – esboniwch i fam y bu ei phlentyn farw wrth iddo aros am gydweddiad addas pam nad ydych wedi cofrestru eto.

Gyda phartner, ystyriwch y datganiad hwn:

- "Nid wyf am gael fy nhorri i fyny pan fyddaf wedi marw ac yn enwedig dim ond fel y gall rhywun barhau i wneud chwaraeon."

Sut byddai llawfeddyg Chris yn debygol o ymateb i'r sylw hwn?